HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE




# Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned





## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon
## 31 Mawrth 2021

GOGLEDD CYMRU PACT NORTH WALES yn ymgorffori **Trechu Trosedd**

Rhif Elusen Gofrestredig: 1071628

gwneud Gogledd Cymru'r lle **mwyaf diogel** yn y DU
making North Wales the **safest** place in the UK

# Cynnwys


Aelodau o’r Bwrdd ac Ymgynghorwyr Proffesiynol ........ 2

Adroddiad y Cadeirydd ........ 3

Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr ........ 4

Adolygiad Gweithgarwch ........ 5

Datganiad Cyfrifoldebau’r Ymddiriedolwyr ........ 9

Datganiad Gweithgarwch Ariannol ........ 10

Mantolen ........ 11

Nodiadau ar y Cyfrifon ........ 12

Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol ........ 17

Atodiad ........ 18

Diolchiadau ........ 25



















# Aelodau'r Bwrdd ac Ymgynghorwyr Proffesiynol

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd** | Ashley Rogers |
| **Is-gadeirydd** | Steve Thomas, Swyddog Gweithredol Materion Llywodraethol, Airbus UK<br>(wedi ymddeol ym mis Rhagfyr 2020) |
| **Bwrdd Ymddiriedolwyr** | David Hinchliffe (Trysorydd Anrhydeddus) |
| | Carl Foulkes, Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru |
| | David Catherall DL |
| | Henry Fetherstonhaugh, OBE, Arglwydd Raglaw Clwyd |
| | E.F. Lloyd Fitzhugh OBE, OStJ, JP, DL |
| | Paul Hinchliffe |
| | Patricia Hughes DL |
| | Y Fonesig Janet Jones JP, DL |
| | Dr Peter Harlech Jones DL |
| | David Wynne Finch - Uchel Siryf Clwyd (Yn rhinwedd ei swydd 01/04/20 tan 26/03/21) |
| | Eryl Williams - Uchel Siryf Gwynedd (Yn rhinwedd ei swydd 01/04/20 tan 27/03/21) |
| **Rheolwr y Prosiect / Cydlynydd Trechu Trosedd** | David Evans |
| **Gwirfoddolwr** | Sarah Rogers |
| **Cyfeiriad** | Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned, Ffordd William Morgan,<br>Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy, Sir Ddinbych LL17 0HQ |
| **Bancwyr** | HSBC Bank PLC, 60 Stryd Mostyn, Llandudno, LL30 2SF |
| **Archwilydd Annibynnol** | Azets Audit Services, Tŷ Brynffordd, 21 Stryd Brynffordd, Treffynnon, Sir y Fflint CH8 7RD |

# Adroddiad y Cadeirydd

Croeso i'm Hadroddiad Blynyddol cyntaf fel Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr.

Dechreuais fel Cadeirydd mewn pryd i weld y wlad yn dechrau ar gyfyngiadau symud a'r heriau mae'r pandemig wedi'i achosi i'n cymunedau. Yn blaen, mae hyn wedi dod â llawer o heriau i PACT a'r bwrdd ymddiriedolwyr, yn bennaf wrth gyflwyno cyfarfodydd rhithiol a'r dechnoleg bresennol.

Tra roedd rhaid i nifer o'n gweithgareddau arferol gael eu cwtogi neu eu canslo'n 2020 – gan gynnwys ein rhaglen ysgolion Cyfiawnder mewn Diwrnod a'n nosweithiau Gwobrau'r Uchel Siryfion – rwyf yn falch o ddweud bod PACT wedi parhau i gynorthwyo grwpiau cymunedol lleol a Thimau Plismona Cymdogaethau dryw gydol y cyfnod anodd hwn. Yn wir, mae ein Rheolwr Prosiect wedi bod ynghlwm â chynorthwyo cymunedau fel aelod o'r Grŵp Gwirfoddol Fforwm Cydnerth Lleol. Mae wedi gweithio gyda Chynghorau Gwirfoddol Sirol a grwpiau cymunedol amrywiol ledled Gogledd Cymru.

Gwelodd 2020/21 PACT yn cyflawni ei hwythfed rownd o gyllid 'Eich Cymuned, Eich Dewis'. Wedi'i lansio yn 2013, mae hon yn parhau i fod yn gronfa hynod boblogaidd a gwelwyd £60,000 ar gael eleni i fentrau cymunedol lleol. Unwaith eto, ariannwyd hyn yn gyfartal rhwng Cronfa'r Comisiynydd ac arian a gasglwyd gan droseddwyr o dan y Ddeddf Enillion Trosedd. Yn dilyn thema'r flwyddyn flaenorol sef 'Creu Cymunedau Cydnerth', gwnaethom ddatblygu hwn i 'Gryfhau Cymunedau Cydnerth' gyda ffocws ar gymorth ac adferiad yn ystod ac wedi'r cyfyngiadau symud. Unwaith eto, gwnaeth 'Eich Cymuned, Eich Dewis' ddenu ceisiadau o safon uchel. Derbyniwyd 48 cais ac fe aeth 43 ymlaen am bleidlais gyhoeddus.

Eleni, gwelwyd y nifer uchaf erioed o bleidleisiau cyhoeddus yn cael eu bwrw – dros 32,000 – gan arwain at 21 o sefydliadau cymunedol yn derbyn eu sieciau ym mis Chwefror 2021.

O dan fy arweiniad rydym wedi parhau i reoli Cronfa Deddf Eiddo'r Heddlu ar ran SCHTh gyda Chronfa Grantiau Bach PACT a'r Prif Grantiau'n parhau i fod yn brif gynhaliwr ein cyllid ynghyd â Chronfa Ieuenctid Trechu Trosedd yr Uchel Siryfion. Er y pandemig rydym wedi gallu cynorthwyo dros 80 o brosiectau yn 2020/21.

Cewch fanylion y grantiau hyn yn atodiad yr adroddiad hwn.

Yn ystod 2020/21 fe wnes i gomisiynu Prifysgol Glyndŵr Wrecsam ymgymryd ag ymchwil gyda bron i 300 o dderbynwyr grantiau PACT. Roedd hyn er mwyn asesu gwerth ac effaith ein grantiau. Mae canfyddiadau'r ymchwil annibynnol hwn yn gadarnhaol dros ben, gyda 94% o brosiectau yn adrodd am gysylltiadau cymunedol gwell yn dilyn cymorth gan PACT. Roedd 98% o brosiectau yn effeithio'n gadarnhaol ar flaenoriaethau plismona a 92% o ymatebwyr yn credu bod y gymuned ehangach wedi elwa o'r ymyriad roeddent wedi'i gyflawni drwy'r elusen.

Ar ben hyn, dywedodd 75% o ymatebwyr na fyddai eu prosiectau naill ai wedi digwydd, neu byddent wedi digwydd ar raddfa lai, heb PACT.

Mae'r adroddiad yn tanlinellu'n glir y gwerth gall cyllid PACT ei gyflwyno i'n cymunedau, un ai fel cyllidwr annibynnol neu, fel mewn sawl achos, trefniant ariannu partneriaeth gwerthfawr.

Buaswn yn eich annog i ddarllen adroddiad 'Making an ImPACT' sydd ar gael yn gyhoeddus ar ein gwefan ar: www.pactnorthwales.co.uk

Wrth i ni symud i flwyddyn ariannol newydd, ac wrth i'n bywydau ddychwelyd at normal newydd, bydd fy nghyd-ymddiriedolwyr a minnau'n defnyddio canfyddiadau'r ymchwil hwn er mwyn datblygu ac ychwanegu at waith PACT sydd eisoes yn bodoli. Byddwn yn cynyddu ei effaith a'i effeithiolrwydd ledled Gogledd Cymru er budd ein cymunedau.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'm cyd-ymddiriedolwyr sef Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru Carl Foulkes a'r CHTh Arfon Jones am eu cefnogaeth yn ystod fy mlwyddyn gyntaf fel Cadeirydd.



**Ashley Rogers**
**Cadeirydd Bwrdd Ymddiriedolwyr PACT**

**Gorffennaf 2021**

















# Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr

Mae'n bleser gan yr Ymddiriedolwyr gyflwyno'u hadroddiad a datganiadau ariannol yr elusen am y flwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2021.

## Amcanion

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cadarnhau eu bod wedi cyfeirio at y canllaw a geir yng nghanllaw cyffredinol y Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus wrth adolygu nodau ac amcanion yr Ymddiriedolaeth. Maent wedi gwneud hefyd wrth gynllunio gweithgareddau yn y dyfodol a gosod y polisi gwneud grantiau ar gyfer y flwyddyn. Ym mhob gweithgarwch, mae'r Ymddiriedolaeth yn ceisio codi proffil Diogelwch Cymunedol. Drwy warchod pobl ac eiddo, mae'n lleihau'r ofn o drosedd yn sylweddol gan felly gwella ansawdd bywyd drwy gydol y rhanbarth. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

- Hyrwyddo mentrau atal trosedd.
- Hyrwyddo Diogelwch Ffyrdd fel rhan annatod o fywyd trigolion Gogledd Cymru drwy hyfforddiant, addysg, cyhoeddusrwydd a phrosiectau arbennig.
- Addysgu pobl Gogledd Cymru ym mhob mater sy'n berthnasol i gamddefnyddio cyffuriau, alcohol a sylweddau eraill gan felly gynorthwyo lleihau troseddau sy'n ymwneud â chyffuriau.
- Datblygu rhaglenni addysgiadol er budd pobl ifanc ac eraill.

## Cyfansoddiad

Cafodd Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned ei lansio ar 14 Hydref 1998. Mae'r Ymddiriedolaeth yn elusen gofrestredig dan Ddeddf Elusennau 1993. Rhif cofrestru'r elusen yw 1071628.

## Dogfennau Llywodraethu

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cael ei Llywodraethu gan y Datganiad o Ymddiriedolaeth (Gweithred Ymddiriedolaeth) a wnaed yn ffurfiol ar 9 Medi 1998.

## Trefniadaeth yr Elusen

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cael ei rhedeg gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Yn unol â'r Datganiad Ymddiriedaeth, dylai Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, pan yn gyflawn, gynnwys hyd at dri ar ddeg o Ymddiriedolwyr sy'n cynrychioli Heddlu Gogledd Cymru, y sector gwirfoddol, y sector busnes, ac Uchel Siryfion Clwyd a Gwynedd.

## Cyfeiriad

Fe ymgymerir â gweinyddiaeth yr Ymddiriedolaeth o'r swyddfa ganlynol:

Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned
Ffordd William Morgan
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0HQ

## Cyfyngiadau ar weithgareddau'r Ymddiriedolaeth

Mae gweithgareddau'r Ymddiriedolaeth yn gyfyngedig i'r amcanion a amlinellir yn yDatganiad Ymddiriedolaeth fel y'i cymeradwywyd gan y Comisiwn Elusennau. Mae'r ardal all fanteisio ar weithgareddau'r Ymddiriedolaeth yn gyfyngedig i Ogledd Cymru.

## Polisi Cronfeydd wrth Gefn

Mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol o ofynion y Comisiwn Elusennau parthed polisi Cronfeydd wrth Gefn.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn adolygu lefel cronfeydd wrth gefn yr Ymddiriedolaeth yn rheolaidd ac yn fodlon eu bod wedi'u cadw ar lefel dderbyniol er mwyn sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i weithredu'n effeithiol.

## Archwiliad Annibynnol

Yn unol â Datganiad Ymddiriedolaeth gwreiddiol PACT, mae'r ymddiriedolwyr yn cadarnhau, gan fod trosiant blynyddol yr Ymddiriedolaeth yn llai na £500,000, bod angen Archwiliad Annibynnol. Pe bai trosiant yr Ymddiriedolaeth yn uwch na hyn yna byddai angen Archwiliad llawn.

# Adolygiad o Weithgareddau - Blwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

Wrth gyflawni ei holl weithgareddau mae PACT yn ymdrechu i gefnogi amcanion y Cynllun Heddlu a Throsedd, lleihau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a chynorthwyo i wneud Gogledd Cymru yn lle mwy diogel fyth i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.

## Cronfa Deddf Eiddo'r Heddlu

Mae Ymddiriedolwyr PACT yn parhau i reoli Cronfa Deddf Eiddo'r Heddlu ar ran y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Mae Cronfa Deddf Elw'r Heddlu yn cynnwys arian y mae'r Heddlu wedi'i gael o werthu eiddo a ddarganfuwyd ac eiddo sy'n cael ei atafaelu a'i werthu yn dilyn gorchymyn llys. Prif nod y gronfa ydy cefnogi prosiectau lleol sy'n cael eu cynnal gan sefydliadau gwirfoddol/elusennol ac sydd er budd cymunedau Gogledd Cymru yn unig.

Mae ein Cronfa Grantiau Bach a Chronfa'r Prif Grantiau'n parhau i fod yn brif gynhaliwr ein cyllid. Er y pandemig, roedd PACT yn gallu cynorthwyo dros 80 o brosiectau eleni. Gallwch eu gweld wedi'u rhestru yn yr atodiad.

Eleni, drwy'n Prif Gronfa Grantiau, mae PACT wedi gallu cynorthwyo Bayside Radio ym Mae Colwyn; gwirfoddolwyr Ymateb 4x4 Gogledd Cymru sydd wedi gweithio'n ddiflino yn ystod y pandemig; y Prosiect Uwchgylchu Abbey i oedolion gydag anawsterau dysgu yn Sir y Fflint; Clwb Hwylio Caergybi gan weithio gyda phobl ifanc ar Ynys Môn; Clwb Rygbi Anabledd Bae Colwyn; a llawer un arall.

Unwaith eto, mae ein Cronfa Grantiau Bach yn parhau i fod yn hynod boblogaidd gyda'n Timau Cymdogaethau Diogelach. Mae'r gronfa, sy'n caniatáu swyddogion ymgeisio am hyd at £250, yn awr yn ei 21ain blwyddyn.

Mae gwerth y cyllid hwn wedi'i amlygu gan yr Adroddiad ImPACT a gynhaliwyd gan ymchwilwyr ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam.

Mae canlyniadau'r ymchwil helaeth hwn wedi dangos mai hwn yw'r tro cyntaf i lawer sydd ynghlwm gyda'n prosiectau ryngweithio gyda'r heddlu. Drwy wneud y cyswllt cyntaf hwn gyda'r heddlu yn brofiad cadarnhaol, mae'n gallu effeithio'n fawr ar eu penderfyniadau mewn bywyd yn y dyfodol yn ogystal â'u perthynas gyda'r system gyfiawnder. Yn wir, dywedodd 75% o'r rhai a gyfwelwyd na fyddai eu prosiectau naill wedi digwydd neu byddant wedi digwydd ar raddfa lai heb PACT.

Mae canlyniad yr arolwg wedi dangos bod PACT yn offeryn defnyddiol i'r heddlu a chymunedau Gogledd Cymru ac mae cyllid PACT yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol. Mae'n gwella bywyd unigolion, yn helpu sefydliadau i gynnal a helpu gwasanaethau hanfodol, helpu cymunedau i ddod yn fwy diogel a chryfach, a helpu Heddlu Gogledd Cymru i gyflwyno eu gwasanaethau yn fwy effeithiol. Mae'r arolwg wedi dangos bod 94% o brosiectau yn adrodd am gysylltiadau cymunedol gwell yn dilyn cymorth gan PACT. Mae 98% o brosiectau yn effeithio'n gadarnhaol ar flaenoriaethau plismona ac mae 92% o ymatebwyr yn credu bod y gymuned ehangach wedi elwa o'r ymyriad roeddent wedi'i gyflawni drwy'r elusen.

Gallwch ddarllen yr Adroddiad ar:

www.pactnorthwales.co.uk

Mae PACT yn parhau i dderbyn nawdd gan CGI UK Ltd i gynorthwyo ein Cronfa Grantiau Bach, gan alluogi SCCH i gymryd rhan mewn prosiectau cymunedol sy'n cynorthwyo'r Cynllun Heddlu a Throsedd. Rydym yn ddiolchgar i Jennifer Williams a'i thîm yn CGI am eu cymorth parhaus.

*Mae rhestr lawn o'r prosiectau hyn a ariennir drwy ein Prif Gronfa Grantiau a Chronfa Grantiau Bach, i'w gweld yn yr Atodiad i'r Adroddiad Blynyddol.*

## Cyfiawnder mewn Diwrnod

Roedd ein rhaglen ar gyfer 2020 ar y gweill pan ddaeth y pandemig gan orfodi darfod ein hamserlen yn gynnar wrth i ni ddynesu at hanner ffordd.

Unwaith eto, y thema oedd Llinellau Cyffuriau a phobl ifanc yn dioddef Llinellau Cyffuriau a'r gangiau sy'n eu defnyddio fel dosbarthwyr lleol yn ein cymunedau.

Yn ystod y bythefnos roeddem yn gallu ymgysylltu gydag ysgolion. Gwelsom dros 330 o ddisgyblion yn dod o 19 ysgol uwchradd ledled Gogledd Cymru. Unwaith eto, cawsom gymorth Swyddogion Cymorth Cymuned yr Heddlu, Llysoedd EM ac ynadon gwirfoddol.

















Roedd y pandemig yn golygu y canslwyd ein rhaglen arfaethedig ar gyfer 2021. Rydym yn hynod ddiolchgar i'n cyd-gyllidwyr, y Sefydliad Moondance a SCHTh, am eu cefnogaeth a'u dealltwriaeth barhaus yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Ynghyd â'n partneriaid yn Theatr Clwyd, rydym yn bwriadu dychwelyd yn 2022.

*Mae Cyfiawnder mewn Diwrnod yn nod masnach cofrestredig Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned. Mae hawlfraint y sgript yn eiddo i Emyr John, Theatr Clwyd*

## 'Eich Cymuned, Eich Dewis'

**Eich Cymuned Eich Dewis**

**Cefnogi prosiectau sy'n lleihau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.**

*'Troseddwyr ar eu colled, Cymunedau ar eu hennill'*

Eleni, derbyniodd 'Eich Cymuned, Eich Dewis' dros 32,000 o bleidleisiau yn cefnogi prosiectau ar draws Gogledd Cymru gan y cyhoedd.

Roedd tri sefydliad ymhob sir yn llwyddiannus a chyflwynwyd sieciau iddynt ar 25 Chwefror 2021 mewn seremoni rithiol a gynhaliwyd gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Arfon Jones, Prif Gwnstabl Cynorthwyol Sacha Hatchett ac Ashley Rogers, Cadeirydd Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned (PACT).

Dywedodd Ashley: Mae "Eich Cymuned Eich Dewis' yn ffordd werthfawr o gefnogi cymunedau gan roi'r dewis o ba brosiectau sydd i gael eu cefnogi yn nwylo'r cyhoedd. Mae'n broses ddemocrataidd iawn a dyna pam rwyf yn credu ei fod wedi bod yn gynllun mor llwyddiannus sydd wedi parhau mor hir.

Mae 'Eich Cymuned, Eich Dewis' yn gynllun gwych i fod yn rhan ohono a gallwch weld y manteision ar unwaith wrth i'r arian gryfhau ein cymunedau. Hoffwn ddweud 'Diolch yn Fawr' i bawb a wnaeth ymgeisio am y gwaith y maent yn ei wneud i gefnogi'r Cynllun Heddlu a Throsedd, eu Timau Plismona Cymdogaeth leol ac yn bwysicaf oll – eu cymunedau."

Dywedodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Sacha Hatchett: "Mae'r arian yn cynnwys arian oddi wrth asedau wedi eu hatafaelu oddi wrth Ddeddf Enillion Trosedd. Yn anad dim, mae hon yn neges o'r pwys mwyaf oherwydd drwy broffesiynoldeb Swyddogion Heddlu Gogledd Cymru a chyda chefnogaeth y Llysoedd, gallwn daro'r troseddwyr ble mae'n brifo – yn eu pocedi."

*Ceir rhestr lawn o enillwyr gwobrau 2020/21 yn yr Atodiad.*


## Gweithgarwch Trechu Trosedd 2020/21

trechu trosedd gogledd cymru

Dechreuodd dau o'n Huchel Siryfion sef David Wynne-Finch ac Eryl Williams eu swyddi toc cyn i'r cyfyngiadau symud ddechrau. Roedd rhaid i'r ddau wneud eu Datganiadau gartref yn hytrach na mewn digwyddiadau seremonïol a oedd wedi'u cynllunio.

Roedd 2020 hefyd yn golygu bod grantiau Trechu Trosedd wedi lleihau'n helaeth. Roedd yr Uchel Siryfion ond yn gallu gwneud llond llaw o ymrwymiadau cyhoeddus gyda llawer o'u gwaith yn cael eu gwneud yn rhithiol.

Roedd hyn yn cynnwys Her Agoriadol Cadetiaid Heddlu'r Uchel Siryf. Wedi'i lansio ym mis Hydref 2020 gan David Wynne-Finch, Uchel Siryf Clwyd ac Eryl Williams, Uchel Siryf Gwynedd, gosodwyd her ar-lein i uwch Gadetiaid er mwyn datblygu cynllun a fyddai'n cynorthwyo lleihau trosedd a/neu ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu cymunedau.



Roedd pynciau a ddewiswyd gan y Cadetiaid yn cynnwys sbwriel a'r amgylchedd, diogelwch cartrefi er mwyn atal byrgleriaethau, a phroblemau pobl ifanc.

Rhoddwyd pedwar cynnig ar y rhestr fer er mwyn i'r panel beirniaid eu hasesu. Gwnaeth y Cadetiaid gyflwyniadau rhithiol i'r Uchel Siryfion.




Rhoddodd Cadetiaid Gwirfoddol yr Heddlu Jacob Riddle ynghyd â Sunshine Bowers, Morgan Davies, Samuel Griffiths a Joshua Taylor gyflwyniad 10 munud yr un i'r panel o feirniaid. Roedd y panel yn cynnwys Uchel Siryfion Clwyd a Gwynedd, Dr Peter Harlech Jones a Chadét yr Uchel Siryf sef Eve Perring yn ei dyletswydd swyddogol olaf cyn gadael i astudio Troseddeg ym Mhrifysgol Caerhirfryn.

CGH Joshua Taylor enillodd yr Her gan ddangos syniadau o safon uchel iawn. Derbyniodd Taleb Rhodd Amazon gwerth £50.00 i gydnabod ei waith rhagorol.

Mewn seremonïau gwobrwyo rhithiol cyflwynodd Uchel Siryf Gwynedd, Eryl Williams, dystysgrifau i aelodau o'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn cydnabod eu gwaith rhagorol yn ystod y pandemig. Yng Nghlwyd, cyflwynodd David Wynne-Finch dystysgrifau i wirfoddolwyr yng Nghonwy a Wrecsam yn dilyn gwahoddiadau gan CVSC ac AVOW.

Ym mis Ionawr 2021 gwnaeth yr Uchel Siryfion gynorthwyo lansio Cystadleuaeth Diogelwch Rhyngrwyd Ysgolion Cynradd Gogledd Cymru, gan osod her iddynt greu poster diogelwch ar y rhyngrwyd gyda chyfle i ennill gwobrau gwych i'w hysgolion. Dan nawdd Trechu Trosedd yng Nghlwyd a Gwynedd, lansiwyd y gystadleuaeth mewn ymateb i'r cynnydd sydyn yn yr amser mae ieuenctid yn ei dreulio ar-lein ers dechrau'r pandemig Coronafeirws ym mis Mawrth 2020. Mae'r gystadleuaeth yn parhau wrth i ni ysgrifennu'r adroddiad hwn.

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn oedd cydnabod un o'n prosiectau'n genedlaethol – 'Rhannu Straeon' a enillodd brosiect cenedlaethol Trechu Trosedd y flwyddyn dan arweiniad Ieuenctid. Cynhaliwyd seremoni wobrwyo rithiol pan ymunodd cynrychiolwyr o National Crimebeat â'r Uchel Siryfion.

Gan groesawu pawb i'r digwyddiad rhithiol, dywedodd David Wynne Finch, Uchel Siryf Clwyd:

"Mae hwn yn brosiect teimladwy a hynod bersonol sydd wedi'i greu a'i ddatblygu gan bobl ifanc yng Ngogledd Cymru sydd wedi dioddef trais rhywiol. Mae wedi'i anelu at gynorthwyo pobl ifanc eraill sy'n dod ar draws amgylchiadau tebyg.

"Gyda chymorth Hannah Mart, Stephanie Williams a'r tîm yn SARC Amethyst ym Mae Colwyn, mae'r bobl ifanc hyn wedi creu rhywbeth eithaf gwych. Rwyf yn gwybod y byddwn ni i gyd

NATIONAL CRIMEBEAT
AWARDS 2020
WINNER
YOUTH LED









wedi'n gwefreiddio gyda'u gwaith." Dathlodd y Wobr ymdrechion anhunanol a helaeth sydd wedi'u cyflawni gan ein pobl ifanc hyfryd heb feddwl o gwbl am gydnabyddiaeth neu wobr."

Ychwanegodd Eryl Williams, Uchel Siryf Gwynedd:

"Drwy ein helusen Trechu Trosedd mae Uchel Siryfion yn chwarae rôl weithredol wrth hyrwyddo gwaith pobl ifanc o fewn eu cymunedau. Mae Uchel Siryfion yn rhannu eu gwobrau personol eu hunain i unigolion. Arwyr tawel yn ein cymunedau yw'r rhain yn ein cymunedau, sydd wedi gwneud cyfraniad rhagorol mewn rhyw fordd. Mae felly'n fraint i Drechu Trosedd yng Ngogledd Cymru gael prosiect sydd wedi derbyn cefnogaeth gennym ni, yn derbyn cydnabyddiaeth genedlaethol."

Rôl yr Uchel Siryfion yw rhoi cymorth gweithredol i'w sir, gan gynnwys y gwasanaethau brys ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith. Maent yn sicrhau lles Barnwyr yr Uchel Lys sy'n ymweld, yn cefnogi ymweliadau brenhinol ac yn cymryd rhan weithredol wrth gefnogi a hyrwyddo sefydliadau gwirfoddol.

Trechu Trosedd yw elusen swyddogol yr Uchel Siryfion, sy'n ceisio cefnogi pobl ifanc sydd am wneud gwahaniaeth yn eu cymunedau. Mae nawdd Trechu Trosedd yn rhoi cyfle unigryw i bobl ifanc ddefnyddio eu hegni a'u dychymyg i ddatblygu mentrau penodol i leihau troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Gallwch weld y ffilm 'Rhannu Straeon' ar: www.youtube.com/watch?v=MFTVlk9N2j4

*Ceir rhestr lawn o grantiau Trechu Trosedd Clwyd a Gwynedd yn yr Atodiad.*

**Os oes gennych syniad da ar gyfer prosiect sy'n cefnogi pobl ifanc ac yn gymorth i wella cymunedau lleol yna cysylltwch gyda ni ar: at: info@crimebeatnorthwales.co.uk**

## Ymgyrch Bang (Be a Nice Guy) 2020




Ynghyd â Heddlu Gogledd Cymru a Thîm Lleihau Tanau Bwriadol mae PACT unwaith eto wedi ymuno i ofyn i bobl wneud hyn: 'Be a Nice Guy'. Mae grantiau ar gael drwy Ymgyrch BANG er mwyn cynorthwyo mentrau lleol sy'n ymdrin â chynnau tanau bwriadol ac ymddygiad

gwrthgymdeithasol dros gyfnod Calan Gaeaf a Noson Guto Ffowc.

Drwy weithio gyda phartneriaid allweddol fel Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol ac awdurdodau lleol, yr ydym yn gallu hyrwyddo negeseuon allweddol drwy'r fenter 'Be a Nice Guy'.

Mae wedi'i nodi fod yr agwedd hon, ynghyd â gweithgareddau dargyfeirio wedi'u targedu sy'n ymgysylltu pobl ifanc mewn digwyddiadau hwyliog ac adloniannol, yn gallu bod yn effeithiol iawn. Sicrheir y gall pawb fwynhau eu hunain yn ddiogel.

*Ceir rhestr lawn o SCCH ac ardaloedd a gefnogwyd yn yr Atodiad*

# Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr

Mae gofyn i'r ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer bob cyfnod ariannol sy'n rhoi safbwynt gwirioneddol a theg o weithgarwch ariannol yr elusen yn ystod y flwyddyn a'i sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn mae gofyn iddynt ddilyn arfer gorau a:-

- dewis polisïau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol a darbodus;
- dweud a yw safonau cyfrifyddu a datganiadau a argymhellir wedi'u dilyn, yn amodol ar unrhyw ymadawiadau pwysig a ddatgelwyd ac eglurwyd yn y datganiadau ariannol;
- paratoi datganiadau ariannol ar sail weithredol oni bai ei bod yn amhriodol tybio bydd yr elusen yn parhau i weithredu.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu sy'n datgelu cywirdeb sefyllfa ariannol yr elusen gyda chywirdeb rhesymol. Mae'n eu galluogi i ganfod sefyllfa ariannol yr elusen ac sy'n eu galluogi i gydymffurfio â Deddf Elusennau 2011, Rheoliadau (Cyfrifon ac Adroddiadau) yr Elusen a darpariaethau Gweithred yr Ymddiriedolaeth. Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen ac felly cymryd camau rhesymol ar gyfer atal a chanfod twyll ac anghysondebau eraill.


Cymeradwywyd gan yr Ymddiriedolwyr ac awdurdodwyd i'w ryddhau ar 06/08/2021 a llofnodwyd ar eu rhan gan:

**David Hinchliffe**
**Trysorydd**









# Datganiad o Weithgareddau Ariannol

## 12 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

| | Nodyn | Cronfeydd Anghyfyngedig | Cronfeydd Cyfyngedig | Cyfanswm 2021 | Cyfanswm 2020 |
|---|---|---|---|---|---|
| ADNODDAU I MEWN | | | | | |
| **Adnoddau i Mewn o Gronfeydd a Grëwyd** | | | | | |
| Rhoddion, Grantiau a Nawdd | 4 | | 85,218 | 85,218 | 93,770 |
| Trechu Trosedd Clwyd | | | 2,500 | 2,500 | 5,908 |
| Trechu Trosedd Gwynedd | | | 0 | 0 | 13,320 |
| Nawdd Cyfiawnder mewn Diwrnod | | | 0 | 0 | 16,875 |
| Cymorth mewn Nwyddau Cyfiawnder mewn Diwrnod | 5 | | 27,200 | 27,200 | 26,800 |
| Incwm mewn Nwyddau | 8 | | 35,552 | 35,552 | 35,552 |
| Gweithgareddau ar gyfer Creu Cronfeydd: Incwm Amrywiol | | | 0 | 0 | 438 |
| Incwm Buddsoddiad | 7 | | 26 | 26 | 97 |
| | | **0** | **150,496** | **150,496** | **192,760** |
| ADNODDAU A DDEFNYDDIWYD | | | | | |
| **Gwariant Elusennol Uniongyrchol** | 6 | | | | |
| **Gweithgareddau Elusennol:** Grantiau Ddyfarnwyd | | | 82,197 | 82,197 | 85,075 |
| Grantiau Trechu Trosedd Clwyd | | | 3,000 | 3,000 | 6,110 |
| Grantiau Trechu Trosedd Gwynedd | | | 1,410 | 1,410 | 3,687 |
| **Cost Gwneud Grantiau** | | 0 | 86,607 | 86,607 | 94,872 |
| Cyfiawnder mewn Diwrnod – Costau Uniongyrchol | 6 | | 10,500 | 10,500 | 16,596 |
| Cyfiawnder mewn Diwrnod – Cymorth mewn Nwyddau | | | 27,200 | 27,200 | 26,800 |
| **Costau Creu Cronfeydd** | 8 | | 35,552 | 35,552 | 35,552 |
| **Costau Llywodraethu:** PACT | 6 | | 3,451 | 3,451 | 2,562 |
| Trechu Trosedd Clwyd | | | 348 | 348 | 234 |
| Trechu Trosedd Gwynedd | | | 109 | 109 | 233 |
| CYFANSWM ADNODDAU A WARIWYD | | 0 | 163,767 | 163,767 | 176,849 |
| NET ADNODDAU I MEWN | | **0** | **-13,271** | **-13,271** | **15,911** |
| CYFANSWM CRONFEYDD A DDWYNWYD YMLAEN | | | 84,559 | 84,559 | 68,648 |
| | | | | | |
| CYFANSWM CRONFEYDD A DDWYNWYD YMLAEN | | 0 | 71,288 | 71,288 | 84,559 |

# Mantolen

### Ar 31 Mawrth 2021

| | Nodyn | 2021<br>£ | 2020<br>£ |
|---|---|---|---|
| **Asedau Presennol** | | | |
| Dyledwyr | 10 | | 18,226 |
| Arian Parod yn y Banc | | 87,488 | 83,971 |
| | | **87,488** | **102,197** |
| **Credydwyr** | | | |
| Croniadau | **11** | **16,200** | **17,638** |
| | | 71,288 | 84,559 |
| **Cronfeydd wrth Gefn** | | | |
| **Cronfeydd Cyfyngedig** | | 71,288 | 84,559 |
| **Cronfeydd Anghyfyngedig** | | 0 | 0 |
| | | 71,288 | 84,559 |

Cymeradwywyd gan yr Ymddiriedolwyr ac awdurdodwyd i'w ryddhau ar 06/08/2021 a llofnodwyd ar eu rhan gan:

**David Hinchliffe**
**Trysorydd**










# Nodiadau ar y Cyfrifon

## 1. Polisïau Cyfrifyddu

Mae'r prif bolisïau cyfrifyddu wedi'u crynhoi isod. Cafodd y polisïau cyfrifyddu eu defnyddio'n gyson drwy gydol y flwyddyn hon a'r flwyddyn flaenorol.

### a) Sail Cyfrifyddu

Llunnir y cyfrifon ar sail croniad ac yn unol â'r Datganiad o Arfer Argymelledig: Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2005.

### b) Cyfrifyddu Cronfeydd

- Mae Cronfeydd Anghyfyngedig ar gael i'w defnyddio ar ddisgresiwn yr Ymddiriedolwyr ar gyfer hyrwyddo amcanion cyffredinol yr elusen.
- Mae Cronfeydd Cyfyngedig yn destun cyfyngiadau ar eu gwariant wedi'u pennu gan y sawl a'u cyfrannodd.

### c) Adnoddau i Mewn

Caiff yr holl adnoddau i mewn eu cynnwys yn y datganiad o weithgareddau ariannol pan fydd gan yr elusen hawl i'r incwm ac y gellir meintioli'r swm yn eithaf manwl gywir. Caiff y polisïau penodol canlynol eu rhoi ar waith mewn perthynas â chategorïau penodol o incwm:

- Derbynnir incwm gwirfoddol drwy grantiau, rhoddion ac anrhegion a chaiff ei gynnwys yn llawn yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol pan y'i derbynnir. Caiff grantiau, lle nad yw hawl yn amodol ar ddarpariaeth perfformiad penodol ar ran yr elusen, eu cydnabod pan fydd gan yr elusen hawl diamod i'r grant.
- Caiff gwasanaethau a chyfleusterau a roddir am ddim eu cynnwys ar eu gwerth i'r elusen lle gellir meintioli hyn.
- Caiff incwm o fuddsoddiadau ei gynnwys pan mae'n dderbyniadwy.
- Caiff adnoddau a geir o grantiau, os ydynt yn berthnasol i berfformiad a darpariaethau penodol, eu cyfrifyddu wrth i'r elusen ennill yr hawl iddynt gael eu hystyried drwy ei pherfformiad.

### d) Adnoddau a Wariwyd

Caiff gwariant ei gydnabod ar sail gronnus wrth i grantiau ayyb gael eu gwneud. Mae gwariant yn cynnwys unrhyw TAW na ellir ei gael yn ôl yn ei gyfanrwydd a chaiff ei adrodd fel rhan o'r gwariant y mae'n berthnasol iddo:

- Mae gwariant elusennol yn cynnwys y costau hynny a gaiff yr elusen wrth ddarparu ei gweithgareddau a'i gwasanaethau ar gyfer ei buddiolwyr. Mae'n cynnwys costau y gellir eu clustnodi'n uniongyrchol i weithgareddau o'r fath a'r costau hynny o natur anuniongyrchol sy'n angenrheidiol i'w cynnal.
- Mae costau llywodraethu yn cynnwys y costau hynny sy'n gysylltiedig â diwallu gofynion cyfansoddiadol a statudol yr elusen ac yn cynnwys ffioedd a chostau archwilio annibynnol cysylltiedig â rheolaeth strategol yr elusen.
- Dyrennir yr holl gostau rhwng categorïau gwariant y DoWA ar sail a ddyluniwyd i adlewyrchu'r defnydd o'r adnoddau. Clustnodir costau perthnasol i weithgaredd penodol yn uniongyrchol a chaiff y gweddill eu dyrannu ar sail briodol e.e. ardal llawr.

## 2. Taliadau i Weithwyr

Ni chafodd unrhyw weithwyr eu talu gan yr Ymddiriedolaeth yn ystod y cyfnod hwn. Cafodd gwasanaethau Rheolwr Prosiect/Cydlynydd Trechu Trosedd eu cyfrannu gan Heddlu Gogledd Cymru. Mae'r gost hon wedi'i chynnwys yn y datganiad o weithgareddau ariannol.

## 3. Treuliau a Thaliadau Cydnabyddiaeth yr Ymddiriedolwyr

Ni dderbyniodd yr un o'r Ymddiriedolwyr nac unrhyw unigolion cysylltiedig eraill unrhyw daliadau cydnabyddiaeth yn ystod y cyfnod.

Ni ad-dalwyd treuliau'r Ymddiriedolwyr nac unrhyw unigolion cysylltiedig eraill yn ystod y cyfnod.

# Nodiadau ar y Cyfrifon

## 4. Rhoddion, Grantiau a Nawdd

| | Anghyfyngedig £ | Cyfyngedig £ | Cyfanswm 2021 £ | Cyfanswm 2020 £ |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa Deddf Eiddo'r Heddlu | | 17,400 | 17,400 | 31,700 |
| Nawdd / Grantiau Cyfiawnder mewn Diwrnod | | 0 | 0 | 16,875 |
| Llywodraeth Cynulliad Cymru / ART | | 2,500 | 2,500 | 700 |
| Cronfa Cyllideb Gyfranogol | | 60,000 | 60,000 | 50,000 |
| CGI UK Ltd | | 5,318 | 5,318 | 10,870 |
| Trechu Trosedd Clwyd | | 2,500 | 2,500 | 5,908 |
| Trechu Trosedd Gwynedd | | 0 | 0 | 13,320 |
| Grant Amrywiol Trosedd Casineb SCHTh | | 0 | 0 | 500 |
| **CYFANSWM** | 0 | 87,718 | 87,718 | 129,873 |

## 5. Cyfiawnder mewn Diwrnod - Cymorth mewn Nwyddau

| | Anghyfyngedig £ | Cyfyngedig £ | Cyfanswm 2021 £ | Cyfanswm 2020 £ |
|---|---|---|---|---|
| Gwerth Sesiynau Cymorth Amser Cinio | | 1,000 | 1,000 | 1,000 |
| Clwb Ieuenctid Llandudno (ystafell a staff) | | 800 | 800 | 800 |
| Clwb Ieuenctid Dolgellau (ystafell) | | 400 | 400 | |
| Ymddiriedolaeth Moondance | | 25,000 | 25,000 | 25,000 |
| | 0 | 27,200 | 27,200 | 26,800 |










# Nodiadau ar y Cyfrifon

**6. Cyfanswm adnoddau a wariwyd:** Mae holl grantiau a roddwyd yn ystod y flwyddyn yn berthnasol i weithgareddau a phrosiectau cymunedol lleol.

| | Costau Staff<br>£ | Costau Eraill<br>£ | Cyfanswm 2021<br>£ | Cyfanswm 2020<br>£ |
|---|---|---|---|---|
| **Gweithgareddau Elusennol** | | | | |
| Grantiau PACT Ddyfarnwyd | | 82,197 | 82,197 | 85,075 |
| Grantiau Trechu Trosedd Clwyd | | 3,000 | 3,000 | 6,110 |
| Grantiau Trechu Trosedd Gwynedd | | 1,410 | 1,410 | 3,687 |
| Cyfiawnder mewn Diwrnod – Costau Uniongyrchol | | 10,500 | 10,500 | 16,596 |
| Cyfiawnder mewn Diwrnod – Cymorth mewn Nwyddau | | 27,200 | 27,200 | 26,800 |
| Amser Staff a Roddwyd a Threuliau | | 32,220 | 32,220 | 32,220 |
| Costau Swyddfa a Roddwyd | | 3,332 | 3,332 | 3,332 |
| | 0 | **159,859** | **159,859** | **173,820** |
| **Costau Llywodraethu** | | | | |
| Ffioedd Archwiliad Annibynnol | | 1,200 | 1,200 | 1,200 |
| Ffioedd Amrywiol | | 2,251 | 2,251 | 1,362 |
| Trechu Trosedd Clwyd | | 348 | 348 | 234 |
| Trechu Trosedd Gwynedd | | 109 | 109 | 233 |
| **CYFANSWM** | 0 | **163,767** | **163,767** | **176,849** |

# Nodiadau ar y Cyfrifon

## 7. Llog

Cyfanswm y llog banc a gafodd yr Ymddiriedolaeth ar gyfer y cyfnod tan 31 Mawrth 2021 oedd £26.00.

## 8. Heddlu Gogledd Cymru – Cymorth mewn Nwyddau

Mae'r Ymddiriedolwyr yn ddiolchgar i Heddlu Gogledd Cymru am eu cymorth parhaus, gan na allai'r Ymddiriedolaeth fodoli'n effeithiol heb y cymorth hwn. Mae HGC wedi cyfrannu'r rhoddion mewn nwyddau canlynol i gynorthwyo PACT.

| | 2021 £ | 2020 £ |
|---|---|---|
| Amser staff a roddwyd a threuliau | 32,220 | 32,220 |
| Lle Swyddfa a Roddwyd | 3,332 | 3,332 |
| | **35,552** | **35,552** |

## 9. Trethiant

Fel elusen, mae Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned wedi'i eithrio rhag talu treth ar incwm ac enillion sy'n dod o dan Adran 505 Deddf Trethi 1988 neu A256 Deddf Trethiant ac Enillion Trethadwy 1992 os defnyddir y rhain i ddiwallu ei amcanion elusengar.

Nid oes unrhyw drethiant wedi bod yn berthnasol i'r elusen.

## 10. Dyledwyr: Symiau sy'n ddyledus mewn un flwyddyn:

| | 2021 £ | 2020 £ |
|---|---|---|
| PACT - CGI | 0 | 3,820 |
| PACT - SCHTh parth llogi lleoliad | 0 | 438 |
| Trechu Trosedd Clwyd | 0 | 648 |
| Trechu Trosedd Gwynedd | 0 | 13,320 |
| | 0 | **18,226** |

## 11. Credydwyr: Symiau sy'n dod yn ddyledus mewn un flwyddyn

| | 2021 £ | 2020 £ |
|---|---|---|
| Ffioedd Archwilwyr | 1,200 | 1,200 |
| Cyfiawnder mewn Diwrnod | 15,000 | 15,000 |
| Costau Teithio Cyfiawnder mewn Diwrnod 2020 | 0 | 1000 |
| PACT – SCHTh parth Llogi Lleoliad | 0 | 438 |
| | **16,200** | **17,638** |



















# Nodiadau ar y Cyfrifon

## 12. Datganiad Cronfeydd ar 31 Mawrth 2021

| | 31/03/20 | Income | Expenditure | Transfers | 31/03/21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Trechu Trosedd Clwyd | 12,580 | 2,500 | 3,348 | | 11,732 |
| Trechu Trosedd Gwynedd | 14,673 | 0 | 1,519 | | 13,154 |
| Tîm Lleihau Tanau Bwriadol / Llywodraeth Cymru | 0 | 2,500 | 750 | | 1,750 |
| Cyfiawnder mewn Diwrnod | 279 | 0 | 10,500 | 10,318 | 97 |
| Cyfiawnder mewn Diwrnod (Nwyddau) | 0 | 27,200 | 27,200 | | 0 |
| Cronfa Cyllideb Gyfranogol | 5,240 | 60,000 | 57,935 | | 7,305 |
| CGI UK Ltd | 0 | 5,318 | 0 | -5,318 | 0 |
| BIPBC | 40,000 | 0 | 0 | | 40,000 |
| Grant Trosedd Casineb SCHTh | 0 | 0 | 0 | | 0 |
| Costau amrywiol – PACT | 0 | 0 | 3,451 | | -3,451 |
| Incwm Amrywiol | 97 | 26 | 0 | | 123 |
| Cronfa Deddf Eiddo'r Heddlu | 11,690 | 17,400 | 23,512 | -5,000 | 578 |
| | **84,559** | **114,944** | **128,215** | **0** | **71,288** |
| Incwm mewn Nwyddau | 0 | 35,552 | 35,552 | | 0 |
| Cronfeydd Anghyfyngedig | 0 | 0 | | | 0 |
| | **84,559** | **150,4961** | **63,767** | **0** | **71,288** |

# Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol i Ymddiriedolwyr Elusen Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned

Adroddaf ar gyfrifon yr Ymddiriedolaeth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 fel y'i gwelir ar dudalennau 10 i 16.

## Cyfrifoldebau perthnasol yr ymddiriedolwyr a'r archwiliwr

Ymddiriedolwyr yr elusen sy'n gyfrifol am baratoi'r cyfrifon. Mae Ymddiriedolwyr yr elusen yn ystyried nad oes angen cynnal archwiliad y flwyddyn hon dan Adran 144(2) Deddf Elusennau 2011 (Deddf 2011) ac mai'r hyn sy'n angenrheidiol yw archwiliad annibynnol.

Fy nghyfrifoldeb i yw:

- archwilio'r cyfrifon dan adran 145 Deddf 2011;
- dilyn y gweithdrefnau a bennir yn y Cyfarwyddiadau Cyffredinol a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) Deddf 2011; a
- datgan a oes unrhyw faterion penodol wedi dod i'm sylw.

## Sail adroddiad yr archwiliwr annibynnol

Cynhaliwyd fy archwiliad yn unol â'r Cyfarwyddiadau Cyffredinol a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau. Mae archwiliad yn cynnwys adolygiad o'r cofnodion cyfrifyddu a gedwir gan yr elusen a chymhariaeth o'r cyfrifon a gyflwynir gyda'r cofnodion hynny. Mae hefyd yn cynnwys rhoi ystyriaeth i unrhyw eitemau neu ddadleniadau anarferol yn y cyfrifon, a cheisio unrhyw eglurhad gennych chi fel Ymddiriedolwyr parthed unrhyw faterion o'r fath. Nid yw'r gweithdrefnau yr ymgymerir â nhw yn rhoi'r holl dystiolaeth a fyddai'n angenrheidiol mewn archwiliad. O ganlyniad i hynny ni roddir barn ynghylch a yw'r cyfrifon yn cynrychioli 'barn wir a theg'. Mae'r adroddiad yn gyfyngedig i'r materion hynny sydd wedi'u hamlinellu yn y datganiadau isod.

## Datganiad yr Archwiliwr Annibynnol

Mewn perthynas â'm harchwiliad, ni ddaeth unrhyw fater i'm sylw:

1. sy'n rhoi achos rhesymol i mi gredu nad yw'r gofynion, mewn unrhyw ffordd faterol:
   - cadw cofnodion cyfrifyddu yn unol ag adran 130 Deddf 2011; a
   - paratoi cyfrifon sy'n cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu ac i gydymffurfio â gofynion cyfrifyddu Deddf 2011.

   wedi'u diwallu;

   neu
2. y dylid, yn fy marn i, tynnu sylw atynt er mwyn galluogi dealltwriaeth iawn o'r cyfrifon.

**John Gardner FCA**
**Azets Audit Services**
**Tŷ Brynffordd**
**21 Stryd Brynffordd**
**Treffynnon**
**Sir y Fflint**
**CH8 7RD**

**Awst 2021**









# ATODIAD

| Cronfa Grantiau Bach Timau Plismona Cymdogaethau | £ |
|---|---|
| SCCH Iona Beckmann - Caru Amlwch | 300 |
| SCCH Iwan Owen - CPD Mynydd Llandygai | 150 |
| Rhingyll Manon Roberts - Cylch Meithrin Llanrug | 250 |
| SCCH Louise Roberts - Gwella Diogelwch Wrecsam | 299 |
| PC Elwyn Williams - Clwb Rygbi Bangor | 250 |
| SCCH Martin Griffiths - CPD Ieuenctid y Waun | 250 |
| SCCH John Davies - Ffair y Glas Prifysgol Glyndŵr Wrecsam | 289 |
| SCCH Emma Jones - Dragon Martial Arts | 250 |
| SCCH Caitlin McGonigle - Cylch Ffrindiau Bach y Fali | 250 |
| SCCH Nerys Williams – Cylch Meithrin, Penysarn | 250 |
| SCCH Tom Jones - Prosiect Gwella Diogelwch Wrecsam | 299 |
| SCCH Sara Owen - Cystadleuaeth Pwmpenni Calan Gaeaf Cyngor Tref Llanfairfechan | 100 |
| SCCH Dave Madden - Cymdeithas Tai Gogledd Cymru, Prosiect Cyffordd Llandudno | 250 |
| SCCH Matthew Newbigging – Partneriaeth Maesgeirchen Partnership | 250 |
| SCCH Karl Turner - Youth Shedz Cymru, Bae Cinmel | 250 |
| PC Stuart Reeves - Ysgol Gynradd y Parc, Wrecsam - Cystadleuaeth Posteri Diogelwch Coelcerthi | 75 |
| PC Stuart Reeves - Ysgol Gynradd Brynteg, Wrecsam - Cystadleuaeth Posteri Diogelwch Coelcerthi | 50 |
| SCCH Nia Roberts - Cylch Meithrin Llanberis a Nant Peris | 250 |
| SCCH Simon Griffiths - Cymdeithas Gadwraeth Bryn y Beili, Yr Wyddgrug | 234 |
| SCCH Nikki Adams - Cymorth Cymunedol Pobl Pen | 250 |

# ATODIAD

## Cronfa Grantiau Bach Timau Plismona Cymdogaethau

| | |
|---|---|
| PC Dewi Evans - Nawdd Hacathon y Tîm Troseddau Cefn Gwlad | 500 |
| SCCH Geraint Williams - Ysgol Dyffryn Nantlle - Prosiect Ieuenctid Penygroes | 250 |
| SCCH Sadie Roberts - DNA Beiciau Modur | 250 |
| SCCH Tom Jones - Cit Clwb Futsal Wrecsam | 300 |
| SCCH Paula Stewart - Clwb Rygbi Bro Ffestiniog | 300 |
| SCCH Anna Algieri - Cyfeillion y Cob y Rhyl | 272 |
| SCCH Mark Hughes - Cymdeithas Rhandiroedd Cae Pawb, Porthmadog | 250 |
| Y Prif Arolygydd Helen Douglas - Prosiect Cymunedol BAME Wrecsam | 250 |
| Y Rhingyll Kelly Lewis - Parc Caia, Prosiect Cymunedol Siop Dros Dro Wrecsam | 250 |
| SCCH Tiffany Davis - Prosiect Symud a Siarad Cymunedol Mostyn | 250 |
| Addasiad parth sieciau wedi'u canslo 2019/20 | 1,100 |
| | **6,318** |



















# ATODIAD

## Prif Grantiau Prosiectau

| | £ |
|---|---|
| Cyfeillion Parc Eirias | 981 |
| Ymateb 4x4 Gogledd Cymru | 1,993 |
| Clwb Hwylio Caergybi | 2,000 |
| CIC Radio a Chyfryngau Cymunedol yr Arfordir | 1,920 |
| HFT Trust Ltd, Prosiect Uwchgylchu Abbey | 2,000 |
| Gofal a Thrwsio Sir y Fflint | 2,000 |
| CPD Coedpoeth Utd | 2,000 |
| Clwb Rygbi Anableddau Stingrays Bae Colwyn | 1,500 |
| Prosiect Pêl droed Nos Wener Conwy | 1,800 |
| Ymddiriedolaeth Gymunedol Splash, Plas Madog, Wrecsam | 1,000 |
| CP Ieuenctid Rhostyllen | 2,000 |
| | **19,194** |

# ATODIAD

| Eich Cymuned, Eich Dewis | £ |
|---|---|
| Clwb Rygbi Llangefni | 2,500 |
| Clwb Ieuenctid Caergybi | 2,500 |
| Hwb Cemaes | 2,500 |
| Menter Kind Bay | 2,500 |
| Hosbis Dewi Sant | 2,410 |
| Hope Restored | 2,000 |
| Clwb Bocsio Amatur Ieuenctid Y Rhyl | 2,500 |
| Dinbych yn Blodeuo | 2,000 |
| Cymdeithas Caeau Chwarae a Hamdden Llanferres | 2,500 |
| Institiwt Cofeb Rhyfel Penyffordd / Penymynydd | 2,500 |
| TaeKwonDo Glannau Dyfrdwy | 2,500 |
| CP Castell Alun Colts | 1,525 |
| Clwb Criced Caernarfon | 2,500 |
| Ffrindiau Wern Mynach, Abermaw | 2,500 |
| Cronfa Hen Fynwent Llanbeblig | 2,500 |
| Clwb Criced Brymbo | 2,500 |
| CPD dan 15 Rhostyllen | 2,500 |
| CPD dan 15 Rhostyllen | 2,500 |
| Youth Shedz Cymru | 5,000 |
| Urdd Glanllyn y Bala | 5,000 |
| DASU | 5,000 |
| Addasiad parth sieciau wedi'u canslo 2019/20 | -2,000 |
| | **55,935** |


















# ATODIAD

| Ymgyrch B.A.N.G. | £ |
|---|---|
| SCCH Kelly Tatlock - Clwb Ieuenctid Caergybi | 250 |
| SCCH Phil Roberts - Ysgol y Faenol, Bodelwyddan | 250 |
| SCCH Nichola Jones - Prosiect Ieuenctid Caernarfon | 250 |
| | **750** |

# ATODIAD

| Grantiau Trechu Trosedd Clwyd | £ |
|---|---|
| Rhannu Straeon Gwobr National Crimebeat | 1,000 |
| Prosiect Tanio CIC Sefydliad Enbarr | 500 |
| Youth Shedz Cymru, Prosiect Bae Cinmel | 500 |
| Ysgol Gynradd Estyn, Hope - Prosiect Llesiant | 500 |
| Ysgol Uwchradd Dewi Sant, Saltney - Prosiect Jig-so | 500 |
| | **3,000** |














# ATODIAD

## Grantiau Trechu Trosedd Gwynedd

| | £ |
|---|---|
| SCCH Natalie Ryder - Prosiect Calan Gaeaf Ysgolion Cynradd Bangor | 200 |
| SCCH Laura Wannop - Maesgeirchen, Bangor - Prosiect Calan Gaeaf | 210 |
| Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen - Prosiect Dosbarth Hafan | 500 |
| Ysgol Gynradd Maesincla, Caernarfon - Prosiect Eco | 500 |
| | **1,410** |

# ATODIAD

**Hoffai'r Ymddiriedolwyr ddiolch i'r sefydliadau canlynol am eu cymorth yn ystod y flwyddyn:**

| |
|---|
| Heddlu Gogledd Cymru |
| Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Tîm Lleihau Tanau Bwriadol Gogledd Cymru |
| CGI UK Ltd |
| Theatr Clwyd, Yr Wyddgrug |
| Sefydliad Moondance |
| Ynadon Gogledd Cymru |
| Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM |
| Prifysgol Glyndŵr Wrecsam |



